EUSMUNC13

Monitro'r gwaith o roi gweithgareddau ar waith ar gyfer gweithrediadau adeiladu rhwydweithiau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â monitro'r broses o weithredu gweithgareddau gwaith ar gyfer gweithrediadau adeiladu rhwydwaith. Mae'r gweithgareddau yn gallu cynnwys, ymysg pethau eraill, cloddiadau, adeiladu, gosod, uniadu, gwneud cysylltiadau, trwsio a chynnal a chadw. Gallai hyn fod ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud gennych chi neu gan bobl eraill.

Mae hyn yn golygu sicrhau bod yr amodau'n addas, bod dulliau a gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith a bod yr allbynnau'n ateb y gofynion. Mae'n cynnwys rheoli adnoddau, rhoi cyfarwyddiadau, monitro cynnydd, canfod amrywiadau neu broblemau a'u datrys o fewn terfynau eich awdurdod.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i oruchwylwyr sy'n monitro'r broses o weithredu gweithgareddau gwaith ar gyfer gweithrediadau adeiladu rhwydwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud yn siŵr bod yr amodau’n addas ar gyfer y gweithgareddau sydd i’w gwneud
2. darparu gwybodaeth glir a chywir ynglŷn â dulliau, prosesau a gweithdrefnau i bob unigolyn a sefydliad perthnasol yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad
3. cadarnhau bod yr offer, deunyddiau a chynnyrch sydd ar gael yn cydymffurfio â gweithdrefnau ac arferion y sefydliad
4. dilyn systemau gweithio diogel a chyfarwyddiadau gwaith bob amser
5. sicrhau bod deunyddiau, offer, gwaith ar y gweill a rhwydweithiau cyfleustodau eraill yn cael eu diogelu rhag difrod amgylcheddol a halogiad yn unol â manylebau technegol
6. cadarnhau bod arferion gweithio diogel yn cael eu dilyn yn unol â gweithdrefnau ac arferion y sefydliad
7. sicrhau bod gwaith sydd wedi'i gwblhau yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau sefydliadol a gofynion rheoliadol
8. monitro cynnydd gweithgareddau mewn perthynas â chynlluniau ac amserlenni a hynny'n barhaus
9. nodi a datrys problemau yn eich maes cyfrifoldeb yn ddi-oed
10. nodi cyfleoedd i newid systemau gwaith diogel a fydd yn gwella canlyniadau
11. argymell gwelliannau o ran datganiadau dull a gweithdrefnau gwaith i'r bobl briodol ar amser priodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. deddfwriaeth, gweithdrefnau sefydliadol a chodau ymarfer ar eich cyfer chi a phobl eraill yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd gan gynnwys codi a chario, defnyddio offer, deunyddiau peryglus, gweithion mewn cloddiadau, mannau cyfyng, asesiadau risg, damweiniau, argyfyngau a chyfarpar diogelu personol (PPE)
2. gofynion rheoliadol y diwydiant yng nghyswllt gweithgareddau gwaith gan gynnwys parhad y cyflenwad
3. deddfwriaeth, gweithdrefnau sefydliadol, canllawiau, dulliau a phrosesau yn ymwneud â'r gweithgareddau gwaith rydych chi'n eu monitro
4. gofynion sefydliadol ar gyfer y gweithgareddau gwaith rydych chi'n eu monitro
5. systemau gwaith diogel ar gyfer gweithgareddau safle a gwaith sy'n gysylltiedig
6. lleoliadau a marcio'r gwahanol fathau o gyfarpar cyfleustodau rydych yn debygol o ddod ar eu traws a sut i’w diogelu
7. amodau addas ac anaddas ar gyfer y dulliau a'r gweithdrefnau gweithgareddau gwaith sydd i'w cynnal
8. goblygiadau a chyfyngiadau gan gynnwys ystyriaethau cwsmeriaid, dylunio, maint gweithrediadau adeiladu, lleoliad, amser, hyd y gwaith, amser cwblhau disgwyliedig, argaeledd adnoddau, effaith tywydd neu amodau tymhorol
9. deunyddiau, offer a chynnyrch cymeradwy gan gynnwys cerbydau, offer, offer a pheiriannau ategol, falfiau, ffitiadau, pibelli a deunyddiau traul, offer iechyd, diogelwch a diogelu’r amgylchedd
10. prosesau i ddiogelu pobl rhag gweithgareddau a deunyddiau peryglus
11. gofynion o ran adnoddau gan gynnwys peiriannau, offer, llafur
12. argaeledd ac addasrwydd adnoddau
13. sut i fonitro gweithgareddau ac allbynnau gwaith
14. newidiadau posib i'r cynllun a'r amserlen a sut i'w datrys
15. y mathau o broblemau a allai godi a pham ei bod yn bwysig eu datrys yn gyflym
16. strwythurau a gweithdrefnau adrodd sefydliadol ar gyfer cyfathrebu â goruchwylwyr, contractwyr, gweithredwyr rhwydwaith, cydweithwyr, cyrff statudol
17. gofynion storio a gwaredu o ran offer a deunyddiau cysylltiedig

EUSMUNC13

Monitro’r gwaith o roi gweithgareddau ar waith ar gyfer  gweithrediadau adeiladu rhwydweithiau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSWNC3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau |
| **Geiriau Allweddol** | rhwydwaith, adeiladu, monitor, gweithrediadau, cyfleustod, cyfleustodau, nwy, LPG, hydrogen, dŵr, monitro, gweithgareddau gwaith, cloddio, gosod, atgyweirio, cynnal a chadw, rheoli adnoddau, rhoi cyfarwyddiadau, aml-gyfleustod |